EPT-17-01 (min)

# PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Mercher 28 Tachwedd 2001 |
| Amser: | 2:00 pm hyd 4:45 pm |
| Lleoliad: | Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Yn bresennol:**

***Aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth***

| | |
|---|---|
| Richard Edwards, Cadeirydd | Preseli Sir Benfro |
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| David Davies | Mynwy |
| Geraint Davies | Rhondda |
| Sue Essex, Gweinidog dros yr Amgylchedd | Gogledd Caerdydd |
| Helen Mary Jones | Llanelli |
| Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Karen Sinclair | De Clwyd |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |

***Swyddogion:***

| | |
|---|---|
| Martin Evans | Cyfarwyddwr y Grwp Trafnidiaeth, Cynllunio a'r Amgylchedd |
| Keith Bush | Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |
| Denzil Jones (eitem 3) | Pennaeth yr Is-adran Polisi Trafnidiaeth |

| | |
|---|---|
| Kay Powell (eitem 4) | Pennaeth yr Is-adran Gynllunio |
| Lindsay Roberts (eitem 4) | Yr Is-adran Gynllunio |

***Ysgrifenyddiaeth:***

| | |
|---|---|
| Siwan Davies | Clerc y Pwyllgor |
| Vaughan Watkin | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd**

1. Croesawodd y Cadeirydd aelodau, swyddogion ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod, yn enwedig Val Lloyd a oedd wedi ei hethol i'r Pwyllgor yn lle John Griffiths, a oedd wedi cofnodi ei ddiolch i'r Aelodau a'r Ysgrifenyddiaeth. Diolchodd y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor i John am y cyfraniad a wnaeth i waith y pwyllgor.

0.2 Hysbyswyd y Pwyllgor fod Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio 2001/7 wedi cwrdd yn gynharach yn y diwrnod, a diolchodd y Cadeirydd i David Davies, Geraint Davies a Karen Sinclair am drefnu y byddent ar gael. Roedd hyfforddiant wedi ei drefnu ar gyfer Aelodau newydd y Pwyllgor fel y gallent hwy eistedd ar Bwyllgorau Penderfyniadau Cynllunio i'r dyfodol.

0.3 Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiadau yn ‘Wales This Week’, ‘Wales on Sunday’ a'r ‘Rhondda Leader’ yn honni eu bod yn dyfynnu o adroddiad yr Ymchwilydd ar safle claddu sbwriel Nantygwyddon. Nodwyd ar bob drafft o'r adroddiad ei fod yn "gyfrinachol", nid oedd y Pwyllgor na'r Ymchwilydd wedi rhoi caniatâd i'w ryddhau, ac roedd ymchwiliadau ar y gweill i'r tor-cyfrinachedd. Y bwriad oedd cyflwyno'r adroddiad terfynol i'r Pwyllgor ar 12 Rhagfyr, a châi copïau eu rhyddhau i'r wasg a'r cyhoedd ymlaen llaw. Roedd y Cadeirydd o'r farn fod y cyfryngau wedi ymddwyn yn anghyfrifol, ond roedd yn benderfynol na fyddent yn tanseilio'r ymchwiliad.

**Eitem 1: Ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

1.1 Gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau o dan Reol Sefydlog 4.5. Gwnaed hynny fel a ganlyn:

- Geraint Davies – Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf;
- Val Lloyd – Aelod o Gyngor Dinas Abertawe.

**Eitem 2: Adroddiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd** – EPT-17-01 (p 1)

2.1 Yn ychwanegol at yr eitemau yn ei hadroddiad ysgrifenedig, rhoddodd y Gweinidog adroddiad llafar ar y materion canlynol:

- Peledi Plwm – byddai'r Rheoliadau yn cyfyngu ar ddefnyddio peledi plwm mewn gynnau yn dod gerbron y cyfarfod llawn ar 13 Rhagfyr a, chyhyd â'u bod yn cael eu cymeradwyo, byddent yn dod i rym ym mis Medi 2002 i gyd-daro â dechrau'r tymor saethu;

- Mynediad – roedd yr hawliau tramwy cyhoeddus i Ben-y-Fan ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi ailagor erbyn hyn;

- Datblygu Cynaliadwy – câi Cynhadledd Byd ar Ddatblygu Cynaliadwy ei chynnal ar 17 Ebrill 2002 yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd;

- Trenau newydd – câi'r rhain eu cyflwyno yng Ngogledd a De Cymru dros y deuddeg mis nesaf;

- Trafnidiaeth Gymunedol – disgwylid y byddai'r adolygiad a gomisiynwyd gan y Fforwm Trafnidiaeth ar gael fis Chwefror 2002.

2.2 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Llifogydd – mynegwyd pryder gan yr Aelodau nad oedd y gwahanol asiantaethau sy'n ymwneud ag amddiffyn rhag llifogydd yn manteisio ar arbenigedd lleol, a bod angen cyd-drefnu gweithgareddau'r cyrff dan sylw. Nododd y Gweinidog y pryder a byddai'n sicrhau bod unrhyw enghreifftiau penodol a dynnir i'w sylw yn cael eu codi gyda'r awdurdodau perthnasol;

- Rheoliad CE ar oergelloedd – roedd yna bryder yn dal ynglyn â deddfwriaeth yr UE i atal allforio oergelloedd sydd wedi eu hadnewyddu o Aelod Wladwriaethau'r UE. Codai hyn gwestiynau ynglyn â'u gwaredu. Roedd y Gweinidog yn ymchwilio i effaith hyn yng Nghymru;

- Gwastraff – Cododd Aelodau bryderon ynglyn â rheoleiddio safleoedd claddu sbwriel a llosgyddion dinesig i'r dyfodol. Dylai'r ffocws fod ar leihau gwastraff i'r eithaf (ar hyn o bryd mae'n cynyddu 3% bob blwyddyn) a dulliau mwy gwyrdd o reoli gwastraff. Mae'n debyg y byddai'r gweithredu a ddeilliai o'r adroddiad sydd ar fin ei gyhoeddi gan Uned Perfformiad ac Arloesi y DU yn cefnogi'r egwyddorion y seiliwyd y strategaeth a'r hierarchaeth gwastraff arnynt;

- Papur Gwyrdd y DU ar Gynllunio – roedd y Gweinidog wedi cwrdd â Gweinidog Cynllunio'r DU, yr Arglwydd Falconer, i drafod y papur gwyrdd sydd ar fin ei gyhoeddi. Roedd y Pwyllgor yn bryderus na ddylai unrhyw gyflymu ar y broses gynllunio gyfyngu ar yr ymgynghori â'r cyhoedd. Gan fod yna gyfle i wneud newidiadau i'r ddeddfwriaeth sylfaenol, awgrymodd yr Aelodau y dylai'r Gweinidog fanteisio arno i geisio'r hawl i wrthwynebwyr apelio yn erbyn penderfyniadau cynllunio, a chyflwyno ymgynghori statudol ar draws ffiniau awdurdodau cynllunio lleol.

- Gwasgedd dr a diogelwch tân – roedd yna bryder fod datblygiadau adeiladu mawr yn gostwng gwasgedd dr mewn rhai ardaloedd, ac y gallai hynny gyfyngu ar allu'r gwasanaeth tân i ddelio ag argyfwng. Cadarnhaodd y Gweinidog ei bod yn ofynnol i gwmnïau dr gynnal gwasgedd digonol ond byddai'n ymchwilio i unrhyw bryderon penodol a godai'r Aelodau gyda hi.

**Eitem 3: Adolygiad Polisi Trafnidiaeth Gyhoeddus** – EPT-17-01 (p 2)

3.1 Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i gytuno ar destun ei adroddiad terfynol ar drafnidiaeth gyhoeddus. Argymhellai'r adroddiad y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol geisio ehangu ei bwerau dros drafnidiaeth gyhoeddus, yn enwedig y rheilffyrdd, a gwahoddai'r Gweinidog i geisio pwerau galluogi ac ymgymryd â gwaith manwl pellach ar opsiynau ar gyfer newid cyfundrefnol. Galwai hefyd am fuddsoddiad sylweddol gan y sector preifat a'r sector cyhoeddus er mwyn gwireddu system trafnidiaeth gyhoeddus integredig, hygyrch a fforddiadwy yng Nghymru.

3.2 Cytunodd yr Aelodau fod yr adroddiad yn nodi barn gonsensws y Pwyllgor, yn amodol ar y newid isod i argymhelliad 17:

- *Argymhelliad 17: fod y Gweinidog dros yr Amgylchedd i lunio cynigion ar opsiynau ar gyfer newid cyfundrefnol, gan gynnwys opsiynau PTA, adrodd ar hynt y gwaith i'r Pwyllgor, ac adrodd i gyfarfod llawn o'r Cynulliad ar yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio o fewn 6 mis.*

3.3 Byddai'r Cadeirydd yn cyflwyno'r adroddiad terfynol i'r cyfarfod llawn ar 11 Rhagfyr a châi ei gyhoeddi'n fuan wedyn.

**Eitem 4: Drafft terfynol 'Polisi Cynllunio Cymru'** – EPT-17-01 (p 3)

4.1 Wrth gyflwyno'r papur, dywedodd Sue Essex fod newidiadau sylweddol wedi'u gwneud i'r canllawiau yn dilyn sylwadau gan y Pwyllgor a'r cyrff cyhoeddus yr ymgynghorwyd â nhw, a chanmolodd waith ei swyddogion a'r Fforwm Cynllunio Defnydd Tir. Y bwriad oedd y byddai'r drafft diwygiedig yn cyflwyno polisi cynllunio Cenedlaethol mewn ffordd hawdd ymdrin â hi.

4.2 Llongyfarchodd y Pwyllgor y Gweinidog a'i swyddogion ar y canllawiau drafft diwygiedig, ac awgrymodd yr Aelodau y newidiadau canlynol:

- Strategaethau eraill – y dylai canllawiau cynllunio gyd-fynd â strategaethau eraill y Cynulliad Cenedlaethol, a chymryd penderfyniadau'r Cynulliad Cenedlaethol i ystyriaeth;

- Ceisiadau a elwir i mewn – y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol ystyried galw pob cais sy'n gwyro oddi wrth y Cynlluniau Datblygu Unedol i mewn;

- Datblygu Cynaliadwy – y dylai Datblygu Cynaliadwy fod yn 'ystyriaeth berthnasol' i geisiadau cynllunio;

- Yr Iaith Gymraeg – y dylid gwneud asesiad o effaith y polisi a'r canllawiau, ar ôl eu cryfhau, ar yr iaith Gymraeg, ac ar gynaliadwyedd cymunedau lleol yn gyffredinol;

- Blaenoriaethau i ardaloedd trefol a gwledig – y dylid rhoi ystyriaeth i'r anhawster o wahaniaethu rhwng cymunedau gwledig a threfol mewn rhai rhannau o Gymru;

- Mastiau telegyfathrebu – y dylid pennu pellteroedd rhagnodol o ran agosrwydd at fastiau telegyfathrebu;

- Hyrwyddo cerdded a beicio – y dylid ychwanegu llwybrau ceffyl at lwybrau cerdded a beicio;

- Gwastraff – y dylid cael arolygon annibynnol i gadarnhau effeithiau amgylcheddol;

- Ynni cynaliadwy – fod nwyon o safleoedd claddu sbwriel a llosgi i gael eu dileu oddi ar y rhestr 'ynni adnewyddadwy';

- Cynaliadwyedd drwy ddylunio da – y dylid cynnwys dylunio sy'n effeithlon o ran ynni;

- Dr – y dylai digonolrwydd y cyflenwad dr fod yn ystyriaeth berthnasol i geisiadau cynllunio unigol;

- Bioamrywiaeth – y dylai ystyried Cynlluniau Bioamrywiaeth lleol a Chynlluniau Bioamrywiaeth y DU fod yn ofyniad gorfodol.

4.3 Byddai'r Gweinidog yn ystyried y newidiadau a awgrymwyd gan yr Aelodau, ond pwysleisiodd fod hon yn ddogfen sy'n esblygu. Ar ôl iddi gael ei chyhoeddi, byddid yn rhyddhau newidiadau drwy ddatganiadau gan y Gweinidog, i'w cyhoeddi wedi hynny fel Datganiadau Cynllunio Interim wedi'u rhifo. Disgwylir i fersiwn derfynol Polisi Cynllunio Cymru gael ei

gyhoeddi ym Mawrth 2002.

**Eitem 5: Cofnodion cyfarfod 14 Tachwedd** - EPT-16-01 (min)

1. Mabwysiadodd y pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

6.1 Byddai cyfarfod nesaf y pwyllgor am 2.00 pm ddydd Mercher 12 Rhagfyr 2001, yn Theatr Park and Dare, Treorci.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Tachwedd 2001**